

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Tachwedd 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. S. Johnson, B. Jones, Miss E. L. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

68. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parch. Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

69. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, S. Harris a A. J. Rutherford.

70. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 18fed Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 56-66

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 18fed Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 26-28

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 1af Tachwedd 2017 - Rhifau Cofnod 29-31

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. M. Jones a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 1af Tachwedd 2017 - Rhifau Cofnod 74-86

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J Butterfield YG MBE a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

71. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr amrywiol ddigwyddiadau y bu iddo eu mynychu yn y mis diwethaf ac yn benodol at Wasanaethau Coffa'r dref yn Eglwys Sant Tomos a'r Gerddi Coffa

72. CYFLWYNIAD: SWYDDOG MONITRO, CYNGOR SIR DDINBYCH

Croesawodd y Maer Mr Gary Williams, Swyddog Monitro, i'r cyfarfod a'i wahodd i annerch y Cyngor Tref.

Diolchodd Mr Williams i'r Cyngor Tref am y cyfle i hysbysu'r cynghorwyr o nifer o bynciau yn y Cod Ymddygiad, yn enwedig etheg a safonau, ac yn benodol ar gyfer aelodau newydd y cyngor.

Dywedodd Mr Williams bod gan y cynghorwyr:

- Ddyletswydd gyfreithiol i ymddwyn yn foesebol.
- Na allent ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol oni fo ganddynt ganiatâd rhywun ag awdurdod i wneud hynny.
- Dylent wybod nad yw'r holl wybodaeth gyfrinachol wedi ei ysgrifennu ar bapurau "rhan dau" neu "binc" a bod 'ansawdd hyder' yn gofyn am agwedd synnwyr cyffredin.
- Dylent gofio gofynion Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.
- Angen sicrhau bod gan y cyhoedd hyder eich bod yn cymryd penderfyniadau er eu budd gorau nhw nid chi!
- Angen datgelu buddiant os oes ganddyn nhw un.
- Dylent ddatgelu 'buddiant personol' os yw'r penderfyniad yn debygol oi'ch effeithio chi neu "gysylltiad personol agos" (eich busnes, cyflogwr, ffrind, perthynas agos). Nid cydnabod achlysurol.
- Dylent ddatgan 'buddiant rhagfarnus' os yw aelod o'r cyhoedd yn debygol o gredu y gallai eich barn chi fod wedi ei dylanwadu (os yw eu merch yn byw drws nesaf i safle datblygiad tai arfaethedig, neu os yw eu mab yn mynychu ysgol sydd i'w chau).
- Dylent wybod ei fod ef fel Swyddog Monitro, y Pwyllgor Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Barnu Cymru yn plismona'r Cod Ymddygiad.
- Os oedd ganddynt amheuan neu bryderon, dylent gysylltu â Chlerc y Dref neu ef neu fynd i ombudsman-wales.org.uk

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Mr Williams:

- Gellid derbyn cais Rhyddid Gwybodaeth mewn llythyr, mewn ebost neu fel arall trwy wefan o'r enw 'What do they know?' a fyddai'n cyflwyno'r cais ar eich rhan.
- Os bydd oriau staff i gasglu ynghyd yr wybodaeth dan sylw yn fwy na 18 awr, yna byddai ffi fesul awr o £25 yn cael ei chodi. Darperir unrhyw beth dan 18 awr yn rhad ac am ddim.
- Roedd iPads cynghorwyr sir yn chwiliadwy trwy weinydd Cyngor Sir Ddinbych, nid iPads unigol, ac y gellid ond rhyddhau gwybodaeth a oedd yn wybodaeth iddyn nhw ei rhyddhau, nid gwybodaeth trydydd parti megis Cyngor Tref neu Gymuned.

73. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod).

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau Aelod.

(a) *Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (26ain Hydref – 7fed Tachwedd 2017)*

Cyflenwr	Manylion	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Pottles Premier Plants Ltd	Planhigion	373	19/06/17	1,313.40
Pottles Premier Plants Ltd	Planhigion	374	19/06/17	9,176.75
Pottles Premier Plants Ltd	Gwrychoeddm, hadau a blodau	375	20/06/17	1,165.80
Y Cyng J. Chamberlain-Jones	Milltired i gyfarfod yr N&MWATC	376	27/10/17	14.40
Amazon	Amddiffynwyr trydanol x4	377	02/11/17	315.92
Conrad Office & Art	Papurach	378	31/10/17	411.51
Conrad Office & Art	Cardiau Nadolig y Maer	379	06/11/17	131.75
Handmade Buffet Company (P. Maley)	Arlwyo ar gyfer Sul y Cofio	380	12/11/17	600.00
Cyfanswm Atodlen B				£13,129.53

74. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – AROLYGU'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (wedi ei ddsbarthu gyda'r rhaglen) yn hysbysu o arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych i'r Cynghorwyr Tref ei ystyried.

Dywedodd Clerc y Dref bod posibilrwydd o gyflwyno achos am gynghorydd ychwanegol ar gyfer ward De-ddwyrain y Rhyl fel rhan o'r arolwg.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn cyflwyno ymateb yn cefnogi cynghorydd ychwanegol ar gyfer ward De-ddwyrain y sir ac anfon copi i'r Cynghorwyr Brian Blakeley, Brian Jones a Cheryl Williams.

75. EITEM ER GWYBODAETH: POPS Y NADOLIG

Dyweddodd Clerc y Dref iddo dderbyn tocynnau'r cynghorwyr ar gyfer y 'Pops Nadolig' yn ddiweddar a'u dosbarthu.

76. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

77. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

78. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – CYNIGION DRAFFT 2018

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1af Tachwedd 2017, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei ymateb drafft (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er cymeradwyaeth gan y cynghorwyr.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft.

79. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

80. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: